fy hoff anifail yw'r ceffyl. mae gen i geffyl o'r enw jac. rwyf yn hoffi ceffylau oherwydd y mae'r anifeiliaid hyn yn gallu ein cario i bob man.

rwy'n cadw'r ceffyl mewn cae fy ffrind peter. rwy'n gorfod mynd i dy peter yn aberdâr bob bore neu nos er mwyn bwydo jac. mae jac yn cael gwellt fel arfer. yn y gaeaf mae jac yn cael ei gadw mewn stabl achos bod hi mor oer. mae tad peter, sy'n ffermio, yn edrych ar ei ôl yn y nos oherwydd pan dwi i yn cyrraedd nôl o'r ysgol mae wedi tywyllu.

ar y penwythnos dwi i'n mwynhau reidio jac o gwmpas y fferm. ambell waith mae peter a fi yn mynd i ben y mynydd ar ein ceffylau. awn yn gynnar yn y bore er mwyn gwario cymaint o amser a sy'n bosibl gyda'r ceffylau. yn yr haf mae peter a fi yn cystadlu mewn cystadlaethau neidio ceffylau. mae hwn yn golygu teithio o gwmpas de cymru a hyd yn oed lloegr. mae peter wedi ennill y wobr gyntaf nifer o weithiau, ond dwi i heb ennill unrhyw beth eto!

ar ôl gadael ysgol dwi i'n gobeithio ffeindio gwaith o gwmpas aberdâr er mwyn i fi wario mwy o amser yn dysgu sut i reidio a neidio yn well er mwyn ennill y wobr gyntaf mewn cystadlaethau.

os na caf waith o gwmpas aberdâr bydd rhaid meddwl yn galed beth i wneud â'r ceffyl ond dwi i'n siŵr nid wyf am ei golli.